

Llawfeddygaeth Delorme/Altmeier i drin prolaps y rhefr

Pam y byddai'n rhaid i chi gael llawdriniaeth Delmore/Altmeier?

Mae'n ddull llawfeddygol i gyweirio prolaps y rhefr a thrin unrhyw symptomau cysylltiedig, er enghraifft, poen, rhwymedd, anymataliaeth ysgarthol, rhedlifau mwcws neu waedu.

Beth yw prolaps y rhefr?

Bydd prolaps y rhefr yn digwydd pan fydd rhan fewnol y rhefr yn ymwithio allan o'r anws. Yn ystod y camau cynnar, efallai y gellir gwithio'r prolaps yn ôl i'r corff, ond os bydd eich prolaps y rhefr yn dal i ymwithio o'r anws, bydd angen i chi geisio gofal meddygol brys sydd fel arfer yn cynnwys llawdriniaeth.


Os byddwch chi'n amau bod gennych chi brolaps y rhefr, ewch i weld eich meddyg i gael asesiad a chyngor ynghylch rheoli'r cyflwr. Ceir tri 3 math gwahanol o brolaps y rhefr, felly mae'n bwysig sicrhau y caiff ei ddiagnosisio'n gywir, er mwyn i chi gael cynnig y driniaeth fwyaf priodol. Dyma'r tri math:

- **Prolaps mwcusaidd** - pan fydd mwcosa (pilen ludiog) y rhefr yn ymwithio drwy'r anws (gwelir hynny ar y dde). Yn achos y math hwn o brolaps, gall ymarferion prolaps y rhefr fod yn fuddiol.
- **Prolaps y rhefr trwch llawn** - bydd mur y rhefr yn ymwithio a neu'n chwyddo o'r anws ac efallai y bydd angen triniaeth Delorme neu Altmeier
- **Llawesiad mewnol** - mae hynny'n golygu y bydd y rhefr yn cwmpo ond yn aros yn y corff (ni fydd yn ymwithio o'r corff). NI fydd ymarferion prolaps y rhefr yn fuddiol yn achos cyflwr hwn.

Mae **prolaps** a **rhefrgoden** yn bethau gwahanol, ond drysir yn aml rhwng y ddau gyflwr. Mae rhefrgoden yn gyflwr prolaps pelfig a brofir gan fenywod pan fydd y rhefr yn chwyddo i mewn i fur cefn y wain, ac efallai bydd yn rhaid cael gwahanol fath o lawdriniaeth i gyweirio hynny.

Anatomeg

Mae'r rhefr yn rhan o'r coluddyn mawr, sef rhan isaf y system dreulio, ac mae'n gorffen wrth yr anws (yr agoriad y bydd gwastraff bwyd neu garthion yn gadael y corff drwyddo). Bydd prolaps y rhefr yn digwydd pan fydd cynhaliaeth arferol y rhefr (pen isaf y colon, ychydig uwchben yr anws) yn gwanhau a bydd y rhefr yn cwmpo oddi allan i'r anws. Gan amlaf, bydd hyn yn digwydd oherwydd bydd cyhyr sffincter yr anws (cyhyr yr anws) wedi gwanhau, a cheir trafferth o ran rheoli gweithgarwch y coluddion a gollyngir carthion neu fwcws (deunydd sy'n ymdebygu i jeli). Gall y cyflwr hwn ddigwydd ymhlith menywod a dynion, ond mae'n llawer mwy cyffredin ymhlith menywod.



Beth fydd yn digwydd yn ystod llawdriniaeth?

Nod llawdriniaeth Delorme yw atal mur llac y coluddyn rhag chwyddo i lawr trwy'ch pen ôl. Bydd yn cynnwys tynnu'r leinin mewnol oddi ar wyneb y coluddyn sy'n gollwng. Yn ystod y broses iacháu, bydd meinwe craith yn ffurfio, a bydd hynny'n atal y prolaps rhag dychwelyd. Yn achos rhai cleifion, os bydd cyhyrau'r coluddyn wedi gwanhau'n sylweddol, efallai y bydd yn rhaid tynnu'r darn o'r coluddyn sy'n gollwng ac ailuno'r coluddyn â phibell y rhefr. Gelwir hyn yn driniaeth Altemeier. Ymgwymerir â thriniaethau Delorme ac Altemeier drwy'r anws, ac ni fydd angen toriad allanol. Fodd bynnag, efallai bydd rhywfaint o gleisiau o amgylch yr anws.

Cyn y llawdriniaeth

Byddwch yn dod i'r ysbyty yn y bore neu efallai (oherwydd rheswm meddygol) cewch eich derbyn y diwrnod cyn eich llawdriniaeth. Defnyddir rhyw fath o ddull i lanhau'r coluddyn (enemâu neu Picolax) cyn y llawdriniaeth. Bydd y math o sylwedd a roddir i chi i baratoi'r coluddyn yn dibynnu ar benderfyniad y llawfeddyg unigol a'r math o driniaeth y byddwch yn ei chael.

Ar ôl Llawdriniaeth

Efallai y cysylltir diferwr â'ch braich ac efallai y gosodir cathetr wrinol i ddraenio'ch pledren. Y meddygon fydd yn penderfynu pryd y gellir tynnu'r diferwr, a phryd y gallwch chi fwyta ac yfed. Fel arfer, bydd y cathetr wrinol yn ei le am ddiwrnod neu ddau. Mae'n eithaf cyffredin profi rhywfaint o anesmwythdra pan fyddwch chi'n gollwng dŵr am y tro cyntaf. Mae dargadw wrin (methu â gollwng dŵr) yn un o'r risgiau. Byddwch yn cael moddion gweithio ar ôl eich llawdriniaeth i helpu i feddalu'ch carthion a symbylu gweithgarwch y coluddyn. Ar y dechrau, efallai y byddwch chi'n teimlo rhywfaint o boen wrth gael eich gweithio. Dylai hynny leddfu ymhen amser. Dylai cyffuriau lleddfu poen rheolaidd gynorthwyo â hynny. Fodd bynnag, gall rhai cyffuriau lleddfu poen achosi rhwymedd. Byddwch yn gallu cael cawod neu fath y diwrnod ar ôl y llawdriniaeth; gofynnwch i aelod o'r staff am gymorth.

Pan fyddwch chi'n mynd adref

Fel arfer, byddwch yn aros 2-4 diwrnod yn yr ysbyty. Fel arfer, cewch eich rhyddhau pan fyddwch yn ddigon iach o safbwynt meddygol ac yn gallu cael eich gweithio. Byddwch yn cael apwyntiad dilynol gyda'r meddyg ymgynghorol ymhen tua 4-6 wythnos ar ôl y llawdriniaeth. Mae diwrnodau 'da' a diwrnodau 'salach' yn brofiadau hollol normal. Fodd bynnag, bydd yn bwysig cysylltu â'r meddyg teulu os bydd unrhyw un o'r canlynol yn digwydd:

- Rhedlif o'r pen ôl
- Gwres

- Crynu afreolus/teimlo'n boeth ac yna'n oer
- Poen wrth ollwng dŵr/angen gollwng dŵr yn rheolaidd neu arogl annymunol ar eich dŵr.
- Trafferth anadlu, brest gaeth neu beswch â fflem gwyrdd neu felyn
- Poen yng nghroth y goes, y goes neu'r frest
- Chwydu

Risgiau

Bydd clefion sydd dros bwysau, rhai sy'n ysmygu neu rai sydd â phroblemau meddygol eraill yn fwy tebygol o brofi'r holl gymhlethdodau isod.

- Mae **cyfradd dychwelyd y cyflwr** wedi triniaeth Delorme yn uchel iawn: **25%-30%**.
- **Haint ar y frest** – Byddai angen gwrthfotigau a ffisiotherapi i gyweirio hynny.
- **Ceuladau gwaed** yn y coesau (thrombosis gwythiennau dwfn) neu yn yr ysgyfaint (emboledd ysgyfeiniol) – Byddwn yn lleihau'r perygl hwn trwy ddefnyddio hosanau cywasgu a phigiadau teneuo gwaed.
- **Anesthetig** – ymgwymerir â'r llawdriniaeth hon o dan anesthetig cyffredinol (byddwch yn cysgu) neu anesthetig asgwrn cefn.
- **Gwaedu** – mymryn bach gan amlaf.

Os cewch chi driniaeth Altemeier (echdoriad), gall gollyngiad ddigwydd yn y man ble bydd dau ben toredig y coluddyn wedi'u cysylltu, ac weithiau, efallai y bydd angen ail lawdriniaeth, a byddai hynny'n golygu gorfod cael stoma.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, gallech droi at wefan Cymdeithas Llawr y Pelfis:

<https://thepelvicfloorsociety.co.uk/patients/default.aspx>

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".**